

www.womansarchivewales.org

Lansiad Llwyddiannus

Roedd lansiad ein gwefan newydd ar 12 Mai yn ddigwyddiad gwirioneddol lwyddiannus. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn lleoliad gwych ar gyfer digwyddiad o'r fath, ac roedd y Llyfrgell ac Aberystwyth ar eu gorau yn yr heulwen fendigedig. Cafwyd taith y tu ôl i lenni'r Llyfrgell i ddechrau. Roedd ein tywysydd yn gyfeillgar a gwybodus ac ymatebod yn amyneddgar i'n holl gwestiynau, yn enwedig am y portreadau yn y storfa gelf!

Ar ôl bwffe blasus ymgynullodd rhyw 35 o bobl yn Siambr y Cyngor i wrando ar Linda Tomos, Cyfarwyddwr CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) yn siarad am y wefan arloesol, Casgliad y Werin Cymru. Mae'r sganiau a'r ffotograffau a gasglwyd yn ystod y prosiect Sioeau ar Daith Hanes Menywod yn hygyrch bellach ar y wefan hon www.casgliadywerincymru.co.uk a theilwrodd Linda ei sgwrs i gynnwys detholiad ohonynt. Soniodd hefyd am y dirgelwch yn ei theulu ei hun y mae hi eisiau mynd ar ei drywydd ryw ddydd.



Apwyntiwyd fy hen-fam-gu, Rachel Llewellyn, yn deleffonydd yng nghyfnewidfa Llangennech, ger Llanelli, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Y parlwr oedd y gyfnewidfa, ac roedd unig ffôn cyhoeddus y pentref yn y pasej wrth y drws ffyrnt. Rwy'n meddwl bod y tŷ yn mynd gyda'r swydd. Mae wedi bod yn ddirgelwch i mi erioed sut y cafodd fy hen-fam-gu y swydd hon a oedd yn ymwneud â thechnoleg fodern iawn yn ei chyfnod. Rholier yn y gwaith tunplat oedd ei gŵr ac roedd ganddi 5 o blant. Fel sy'n arferol, rwy'n flin nawr na siaradais i â mam-gu am ei mam. Mae fy mam yn ei chofio yn wraig dal, drwsiadus bob amser. Mae'n amlwg ei bod hi'n berson penderfynol! Ar y pryd roedd y swydd hon bron yn wasanaeth personol, gan mai ychydig iawn o bobl oedd yn berchen ffôn. Mae fy mam yn cofio sut y byddai dwy chwaer y sgweier lleol yn siarad Ffrangeg â'i gilydd bob amser ar y ffôn rhag ofn bod y cysylltydd yn gwrando! Linda Tomos



Dilynodd Caroline Fairclough hyn gyda lansiad ffurfiol gwefan AMC/WAW www.womansarchivewales.org ac eglurodd sut y cafodd ei chreu a sut y gellid ei defnyddio, yn enwedig adran yr Aelodau, y bydd gan bob un ohonom gyfrinair ar ei chyfer. Yna cafwyd sesiwn drafod gynhyrchiol iawn pryd y codwyd nifer o faterion, yn arbennig problem hawlfraint delweddau. Mae'r pwyllgor yn golygu ceisio arweiniad arbenigol ar y pwnc pwysig hwn. Gofynnodd Caroline i unrhyw gywiriadau a sylwadau gael eu hanfon ati yn ystod y pedair wythnos nes a (website@womensarchivewales.org). Bydd yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol ar ôl hynny.

Daeth y prynhawn i ben â phaned a chyfle i weld arddangosfa liwgar o ddillad a memorabilia a oedd yn eiddo i'r ddiweddar Olwen Davies, Aberystwyth, cantores opera, ymgyrchydd brwd dros heddwch a gwniyddes ysbrydoledig. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys atgofion ysgrifenedig am Olwen, cerddi wedi'u cyfansoddi iddi a chyfweliad hirfaith a roddodd hi ei hun i ohebydd am ei bywyd. Roeddem wrth ein boddau yn croesawu nith Olwen i'n digwyddiad, ac i wybod y byddai ei phapurau yn mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol a detholiad o'i dillad a'i memorabilia i Amgueddfa Ceredigion, y cyfan i'w roi ar adnau 'trwy AMC/WAW'.

Hoffwn gofnodi ein diolch i Angharad Medi Jones o'r Llyfrgell Genedlaethol a Mary Turner-Lewis o Amgueddfa Ceredigion am eu cymorth hael i wneud Lansiad ein Gwefan yn llwyddiant ac i Caroline Fairclough a Liz Fahy am y gwaith anferthol a wnaed yn dylunio ac adeiladu'r wefan newydd..

Jenny Sabine.



Betsi Cadwaladr

Cafodd Betsi Cadwaladr fywyd rhyfeddol. Roedd yn cyfoesi â Florence Nightingale a bu'n nyrsio milwyr Prydeinig yn Balaclava yn ystod Rhyfel y Crimea War. Deirdre Beddoe sydd wedi bod yn gyfrifol am ddwyn Betsi i sylw nyrsys heddiw trwy ei chyflwyniad i hunangofiant Betsi a gyhoeddwyd gan Honno.

Fe'i ganwyd yn y Bala, yn un o 16 o blant a chafodd ei magu mewn bwthyn bychan ar fferm Penrhiw. Roedd ei thad yn ffermwr a phregethwr. Ei ffydd, a etifeddodd gan ei thad, oedd yn ei chynnal ar hyd ei bywyd. Yn ei chwedegau, ar ôl gweithio fel morwyn ar hyd ei hoes, cyflwynodd Betsi ei hun i wasanaethu yn y Crimea. Roedd Florence Nightingale wedi ymadael eisoes ond dewiswyd Betsi i fynd allan gyda'r ail garfan o nyrsys.

Byddai'n deg dweud nad oedd Nightingale a Betsi yn cyd-dynnu o gwbl. Roedd Nightingale, dan ddylanwad Brad y Llyfrau Gleision, yn amheus o Betsi am ei bod yn Gymraes. Felly gadawodd Betsi Nightingale yn Scutari ac aeth i'r ffrynt yn Balaclava i ofalu am y cleifion. Roedd Nightingale yn deall bod angen ymchwil trylwyr i berswadio'r awdurdodau a'r cyhoedd i ddelio â'r amodau difrifol a oedd yn lledaenu clefydau.

Roedd Betsi Cadwaladr yn deall gwerth y cyffyrddiad dynol. Wnaeth hi ddim defnyddio cyfraddau marwolaeth na graffiau ystadegol i ddangos i'r arolygwyr ffroenuchel a ymwelai â'i wardiau hi yn Balaclava fod anghenion ei chleifion ddim yn cael eu diwallu oherwydd rheolau a biwrocratiaeth. Roedd Betsi'n dda iawn am roi cnawd am esgyrn yr ystadegau gyda'i hadroddiadau manwl am gyflwr y dynion ifanc dan ei gofal. Heddiw byddem yn eu galw yn 'storïau'r cleifion' a defnyddiodd

nhw gydag angerdd y pulpud a huodledd y Cymry ar ei orau. Roedd Betsi yn trin pawb yn gyfartal, gan ymladd dros anghenion milwyr wedi'u hanafu beth bynnag eu safle neu'u cefndir. Roedd hi'n arloeswraig o safbwynt egwyddor sylfaenol y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol: triniaeth yn seiliedig ar angen nid y gallu i dalu. Yn eironig, darganfu mai'r swyddogion claf oedd y rhai mwyaf anghenus droeon gan fod disgwyl iddynt dalu am fwyd a chynhaliaeth. Angen y claf oedd yn ei hysgogi i weithredu. Datblygodd sgiliau y byddem ni heddiw yn ystyried eu bod yn cwmpasu nyrsio, deieteg a therapi galwedigaethol.

Yn anffodus, yn ystod ei bywyd, dioddefodd ragfarn am ei bod yn Gymraes. Yn yr un modd yn ei marwolaeth mae wedi wynebu rhagfarn. Cafodd ei thargedu i'w beirniadu ag ensyniadau ei bod yn ddynes o 'foesau amheus'. Eto, roedd hi, nid yn unig wedi pasio profion corfforol a moesol anodd iawn i'w derbyn yn nyrs, yn Gristion i'r carn a wrthododd brynu bwyd ar y Sul un tro, er ei bod yn llwgu!

Claddwyd Betsi fel tlodyn yn Abney Park, London. Mae gwarth y fath gladdedigaeth yn dorcalonnus yn enwedig o gofio i Betsi dalu am ei gwaith caled ac am gysegri i hun i filwyr Balaclava â'i hiechyd.

Heddiw caiff Betsi Cadwaladr ei chydabod gan nyrsys Cymru. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i enwi er cof amdani. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cynnal Darlith Betsi Cadwaladr bob dwy flynedd. Eleni lanswyd ysgoloriaeth nyrsio flynyddol Betsi Cadwaladr gan Brif Nyrs Cymru. Ym mis Awst bydd Nyrsys Cymru yn ymgasglu yn Abney Park i gysegru carreg fedd a mainc er cof amdani. Ar y garreg mae tysteb a ddywedwyd amdani yn feddagraff iddi.

Betsi Cadwaladr, Y ffyddlonaf o Nyrsys ei Mawrhydi

Donna Mead

Betsy Cadwaladr: A Balaclava Nurse with an introduction by Deirdre Beddoe (2007) gan Wasg Honno : Gwasg Menywod Cymru



O'r Gadair

Rwyf wedi ysgrifennu mewn man arall yn y Cylchlythyr hwn am ein gwefan newydd, a hanes y lansiad. Fel y gallwch ddyfalu mae'n siŵr mae llawer o waith ac egni wedi mynd i mewn i hyn yn ystod y misoedd diwethaf. Ond mae eich pwyllgor wedi bod yn brysur hefyd yn ffurfioli llawer o'r prosesau ynghlwm â gweinyddu AMC/WAW, gwaith a fydd gobeithio yn golygu y bydd y mudiad yn rhedeg yn esmwyth wrth iddo dyfu i gymryd ei le gyda mudiadau hanesyddol a diwylliannol eraill yng Nghymru. Penderfyniad a gymerwyd ynghynt eleni oedd rhannu ein pwyllgorau deufisol yn bedwar cyfarfod trwy gynadledda fideo bob blwyddyn, gydag agenda'n ymwneud yn bennaf â materion busnes a gweinyddol, a dau gyfarfod wyneb yn wyneb, lle cawn gyfarfodydd mwy cymdeithasol a chyfle i dreulio rhywfaint o amser yn trafod cyfeiriad yr Archif at y dyfodol. Cynhelir y nesaf ar Fehefin 29 a byddwn yn ystyried prosiect posibl at y dyfodol ar hanes menywod mewn diwydiannau ysgafn yn ystod y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth neu syniadau perthnasol gan aelodau am hyn. Anfonwch nhw trwy e-bost at: info@womensarchivewales.org neu i'n cyfeiriad post os gwelwch yn dda.

Jenny Sabine

21^{ain} Cynhadledd Rhwydwaith Hanes Menywod

Prifysgol Caerdydd

7-9^{fed} Medi 2012

Women, State and Nation: Creating Gendered Identities

Bydd ein cynhadledd ryngwladol flynyddol yn canolbwyntio eleni ar y berthynas rhwng menywod a'r wladwriaeth. Bydd y gynhadledd yn archwilio prosesau adeiladu-cenedl ac yn ystyried i ba raddau y mae hunaniaethau cenedlaethol wedi'u heffeithio gan rywedd. Byddwn yn edrych ar fenywod fel dinasyddion; perthynas a rhyngweithio menywod â'r wladwriaeth a delweddu cenedl yn fenywaidd neu yn rhyweddol. Mae papurau'n ymwneud ag amrywiaeth o themâu yn cynnwys rhyfel a gwrthdaro, cynrychioliadau o fenywod ac ymwneud menywod â chelf, cerddoriaeth a llenyddiaeth, a gweithgarwch menywod yn ymgyrchu dros addysg, y bleidlais a diwygiadau lles. Daw siaradwyr y gynhadledd o amrywiaeth eang o gefndiroedd a chenchedloedd ac maent yn rhannu diddordeb mewn hanes menywod. Rydym yn falch gallu cyhoeddi mai ein prif siaradwyr fydd: Dr Padma Anagol (Prifysgol Caerdydd), yn cyflwyno papur ar "*In the interest of the nation": Women's role and participation in the birth of the Hindu Right in colonial India*", Yr Athro Mineke Bosch (Prifysgol Groningen), gyda phapur ar '*National Suffrage Spectacle and Transnational Transfer: A Comparison of British and Dutch Suffrage Activism*' a'r Athro Elsa Barkley-Brown o Brifysgol Maryland.

Gellir cofrestru ar gyfer y Gynhadledd yn awr. Os cofrestrwch chi cyn 13 Gorffennaf cewch ddisgownt am fod yn gynnar. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <http://www.cardiff.ac.uk/share/newsandevents/events/history/womens-history-network.html> os gwelwch yn dda.

Cofnodion Coleg Hyfforddi'r Barri

Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol nesáu, ac wrth i gynlluniau gael eu gwneud ar gyfer y digwyddiad sy'n canolbwyntio ar hanes Coleg Hyfforddi'r Barri, mae'n bosibl y bydd gennych ddiddordeb gwybod bod Archifau Morgannwg yn cadw ystod eang o gofnodion sy'n ymwneud â'r Coleg. Sefydlwyd y Coleg gan Gyngor Sir Forgannwg ym 1914 i hyfforddi merched o siroedd Morgannwg a Mynwy, ond ymestynnwyd hyn i ferched ledled y wlad ym 1947 ac i ddynion ym 1962. Mae'r



cofnodion a gedwir yn Archifau Morgannwg yn amrywio o gofnodion pwyllgorau sy'n trafod y broses o sefydlu'r Coleg a chynlluniau'r adeiladau, i brosbectysau, cylchgronau a ffotograffau dosbarth.

Er bod llawer o ddeunydd yn ymwneud â'r Coleg yng nghofnodion Cyngor Sir Forgannwg, mae ein prif gasgliad o gofnodion yn dod yn uniongyrchol o'r Coleg (cyfeirnod ECOLLB). Mae'r casgliad hwn yn cynnwys cofnodion gweinyddol, cofnodion staff a myfyrwyr a chyfres o ffotograffau. Mae casgliad gwych o ffotograffau dosbarth o ddyddiau cynnar y coleg (1919-1921) hefyd ar gael yn Archif y Merched (cyfeirnod DWAW22). Mae'r cofnodion hyn ar gael i'w gweld yn ein hystafell chwilio gyhoeddus, ond mae cyfyngiadau ar gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Byddem yn croesawu rhagor o ddeunydd gwreiddiol yn ymwneud â'r Coleg fel y gellir cadw'r cofnodion a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd am flynyddoedd i ddod. Os hoffech ragor o wybodaeth am yr hyn sydd gennym neu os hoffech wybod sut i adael deunydd gyda ni, cysylltwch â ni: Glamro@caerdydd.gov.uk; Archifau Morgannwg, Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AW.

Louise Hunt

Costau teithio ar gyfer gwirfoddolwyr

Yn ein pwyllgor diwethaf buom yn trafod nad oeddem eisiau gweld cyfyngu ar gyfraniad unrhyw un i'n gwaith – neu bod rhai ddim yn gwirfoddoli yn y lle cyntaf – oherwydd ystyriaethau ariannol. Felly os ydych chi ar byllgor, neu is-grŵp, fel is-grŵp yr Eisteddfod Genedlaethol, neu os ydych chi'n gwneud unrhyw gyfraniad at waith yr Archif, ar gyfer teithiau o dros 50 milltir i gyd gallwch hawlio 15c y filltir os dymunwch. Cysylltwch â mi, y trysorydd ynglŷn â hyn 01792-469232.

Rydym yn ffodus fod rhai o gostau ein cyfarfodydd a'r teithio yn cael eu sybsideiddio gan gyflogwyr cefnogol ac archifdai sirol. Ond, fel y gwyddoch, ein hunig incwm rheolaidd yw tanysgrifiadau aelodaeth sydd yn ddigonol dim ond ar gyfer costau sylfaenol postio, papur, argraffu ac ati. Felly bydd angen codi arian ar gyfer rhai o'n gweithgareddau ychwanegol. Byddwn yn gweld sut mae'r polisi teithio hwn yn gweithio am flynyddyn brawf.

Gail Allen, Trysorydd

Nodiadau o'r ddau Gyfarfod Pwyllgor diwethaf

Mawrth & Mai 2012

Cynhaliwyd y ddau gyfarfod hyn trwy gynadledda fideo i alluogi aelodau gogledd Cymru Sue Trevelyan-Jones a Shan Robinson i gymryd rhan. Llwyddodd Sue Thomas i drefnu ar ein rhan trwy rwydwaith y brifysgol. Dysgon ni am ambell broblem dechnegol yn ystod y cyfarfod cyntaf, roedd yn ail yn llawer mwy pleserus. Rydym yn cynllunio cynnal dau gyfarfod wyneb yn wyneb y flwyddyn, bydd y gweddill trwy gyfrwng fideo. Mae'r pwyllgor wedi ymrwymo i wneud AMC/WAW yn fudiad gwirioneddol genedlaethol.

Ers cychwyn yr Archif anwybyddwyd mater costau teithio. Yng nghyfarfod Mawrth penderfynwyd y byddai teithiau o dros 50 milltir yn cael eu digolledu ar raddfa 15c y filltir os byddai aelodau eisiau ei hawlio. Ceir gwybodaeth am hyn gan ein Trysorydd Gail Allen ar y dudalen flaenorol. Cadarnhaodd y pwyllgor hefyd sut y byddai Adneuron/ Rhoddion yn cael eu trefnu trwy gymorth parod Archifdy Morgannwg. Cyhoeddodd Avril Rolph fod ganddi hi bellach restr lawn o gasgliadau AMC/WAW yn yr archifau ar draws Cymru.

Treuliwyd tipyn o amser ar lansiad y wefan newydd a ddigwyddodd ar Fai 12 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn sylweddoli bod angen sylw ar ambell agwedd o hyd ond ar y cyfan roedd pawb yn hapus iawn â hi. Gobeithio y bydd yn gam pwysig arall yn natblygiad AMC/WAW.

Yn ffodus llwyddiant arall mawr yr Archif oedd dwyn y prosiect Sioeau ar Daith i ben o'r diwedd. Cylchredodd Jenny Sabine gofnodion terfynol y Grŵp Rheoli Prosiect a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2012. Argymhellodd y Grŵp fod gwaith pellach yn angenrheidiol ar ddefnyddiau nad oeddynt yn rhan o'r Sioeau ar Daith gan ystyried posibilrwydd cyflogi rhywun i'w catalogio. Adolygwyd yr aelodaeth ym mhob cyfarfod gan dalu sylw arbennig i fater aelodaeth sefydliadol. Ystyriwyd y posibilrwydd o ddatblygu Cyfeiriadur o Aelodau trwy gyfrwng y wefan newydd a byddwn yn gofyn am adborth yr aelodaeth yn gyffredinol. Adroddodd Catrin Stevens ar y trefniadau ar gyfer darlith AMC/WAW yn Eisteddfod Genedlaethol y Fro ar ddydd Gwener 10 Awst am ganol dydd. Bydd AMC/WAW yn talu am y cyfieithu ar y pryd.

Nodwyd a thrafodwyd dau brosiect ar gyfer y flwyddyn nesaf yn y ddau gyfarfod. Mae'r pwyllgor eisiau hyrwyddo dysgu hanes menywod mewn prifysgolion ac ysgolion yng Nghymru ac mae'n gobeithio hybu trafodaeth ehangach ymysg ein haelodau ar y mater hwn. At hyn byddwn yn trafod prosiect ymchwil newydd arall i'r Archif. Penderfynwyd y dylid ysgrifennu cyflwyniad PwerBwynt byrrach ar gyfer ei ddefnyddio mewn cyflwyniadau ffurfiol. Adroddodd Shan Robinson ar y gweithgareddau yng ngogledd Cymru; roedd wedi cyfarfod ag Annie Williams i drafod cadw'r momentwm i fynd ar ôl y gynhadledd ddiwethaf. Maent yn cynllunio Diwrnod Hanes ar 19eg Medi. Mae Cynhadledd Cymdeithas Gogledd America ar gyfer astudio Diwylliant a Hanes Cymru yn cael ei chynnal ym Mangor a bydd AMC/WAW yn cael ei chynrychioli.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddiwedd Mehefin, yn Archifdy Morgannwg a gobeithio y gall Sue Trevelyan-Jones a Shan Robinson fod yn bresennol yn y cnawd.

Rosemary Scadden, Ysgrifennydd Cofnodion

Newyddion a Nodiadau Atgoffa

Ymweliad ag Archifau Gwent

Mae ymweliad ag Archifau Gwent ar ei newydd wedd ac a agorwyd fis Tachwedd diwethaf, ar y gweill ym mis Medi. Bydd croeso i bob aelod a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn fuan.



Cynhelir **Cynhadledd AMC/WAW** yn Y Fenni ar 13^{eg} a'r 14^{eg} Hydref. Mae gennym restr o siaradwyr da iawn eisoes ac mae cinio bywiog wedi'i drefnu hefyd. Bydd manylion archebu lle ar gael yn fuan.

The Women's' Library

Fel y gwyddoch, mae'r adnodd anhepgor hwn ar hanes menywod dan fygythiad ar hyn o bryd. Cefnogwch yr ymgyrch i achub y llyfrgell trwy Facebook.

<https://www.facebook.com/groups/370426752989975/>



Gwefan. Dylai pob aelod sydd â chyfeiriad e-bost fod wedi derbyn e-bost erbyn hyn yn dweud wrthynt eu manylion mewngofnodi ar gyfer Adran yr Aelodau ar y Wefan. Ar hyn o bryd does fawr iawn ynnddi! Gobeithio mai dyma ble byddwch chi yn nodi eich diddordebau ymchwil a'ch ymholiadau, rhybuddion byr ac eitemau diddorol eraill. Caiff papurau'r Gynhadledd eu cyhoeddi yma i gyhwyn, yn ogystal ag yn fersiwn ar-lein y Cylchlythyr hwn, gyda mwy o ffotograffau (mewn lliw) a chysylltiadau. Cysylltwch â mi ar website@womensarchivewales.org <<mailto:website@womensarchivewales.org>> os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gyfraniadau.

Ymddiheuriad

Cafodd llun hyfyrd o Deirdre Beddoe yn dathlu yng Nghylchlythyr Mawrth ei dadogi i Avril Rolph y lle Paulette Pelosi fel y dylasai. Ymddiheuriadau llaes.

